# Minutes of Culture, Tourism and Communications Committee

## Held on Wednesday, 24 June 2026 at 2.00pm at the Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Cllrs. Rob Marshall (Chair), Richard Jarvis, Martin O'Neill and David Lewis.

**Officers Present:** Kerry Grabham – CO, Cat Hiles – Marketing, Events & Editorial Officer and Ian Hughes - CSO

| | |
|---|---|
| CT2606-01 | **Apologies for Absence**<br>Cllrs Angela O'Connor and Tim Zhou |
| CT2606-02 | **Declarations of Interest**<br>As a member of Mumbles Yacht Club, Cllr Jarvis declared a personal interest in relation to agenda items 12 and 15. |
| CT2606-03 | **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**<br>To approve the minutes of the meetings held on 27 May 2026 as a true record.<br><br>**RESOLVED:** to approve the meeting minutes held on 27 May 2026 as an accurate record. |
| CT2606-04 | **Update on actions from previous meetings.**<br>The CSO updated the committee on all outstanding actions which had previously been circulated by him to committee members.<br><br>**RESOLVED:** Outstanding actions to be updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions |
| CT2606-05 | **Elect Vice Chair for Committee**<br><br>**RESOLVED:** to defer appointment until July's Committee Meeting |

| | |
|---|---|
| CT2606-06 | **Recommendations for Co-Opted Committee Members**<br><br>The Chair, Cllr Marshall outlined that previous co-opted members should be considered.<br><br>**RESOLVED** Unfortunately Liz Fuller is unavailable to continue as a co-opted member. Michael Eames and Pip Reason to confirm their willingness as co-opted members<br><br>**ACTION:** CSO to write to both Mike Eames and Pip Reason and establish whether they wish to continue as co-opted members on the committee. |
| CT2606-07 | **Folk Festival**<br>Cllr Jarvis provided an update on the proposed Folk Festival to take place during the first weekend of October 2026. Venues and bands have been booked for the three days (Friday 2nd October to Sunday 4th October).<br>Other considerations discussed included the need for a licence to sell alcohol at the Ostreme Centre and the use of The Hub's mobile bar on the same day (Saturday 3rd October). An entrance fee of £5 was proposed for entry to The Ostreme.<br>In addition, holding a similar event in 2027 was also discussed with the option of accommodating or working with other festivals. The Councillors believed that the template used for running and organising MumblesFest could be adopted, in part for The Folk festival.<br><br>**RESOLVED:** Cllr Jarvis to work with others including Cat Hiles on promoting and organising the event. |
| CT2606-08 | **Mumbles Tourism Update**<br><br>**RESOLVED:** In the absence of Cllr O'Connor to defer update until July's Committee Meeting |
| CT2606-09 | **Breast Cancer Awareness**<br><br>**RESOLVED:** In the absence of Cllr O'Connor to defer update until July's Committee Meeting |
| CT2606-10 | **Toy and Toast Event**<br><br>**RESOLVED:** In the absence of Cllr O'Connor to defer update until July's Committee Meeting |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| CT2606-11 | **To provide welcoming 'signage' and music in Mumbles at future events**<br><br>MCC's Chair, Cllr Will Thomas had suggested at June's Full Council Meeting that 'welcome' signs and music should be adopted within the MCC when events such as a half marathon or Ironman contest are taking place.<br>The Committee fully supported this idea, which would further highlight the area of Mumbles to visitors.<br><br>**RECOMMENDED** That MCC provide welcoming signs/music at suitable events participating in MCC area. |
| CT2606-12 | **To support the RNLI Raft Race on a 'permanent' basis.**<br><br>Cllr Jarvis outlined the importance of supporting this event and included a proposed Sea Shanty Festival (CT2606-15 refers) within this agenda item. Cllr Jarvis included adding busking options to the events and utilising Mumbles Yacht Club (Previously declared interest as a member).<br>All members of the committee were enthusiastic about both the Raft Race and Sea Shanty Festival and whilst suggestions such as food stall were suggested the Committee were mindful not to assume responsibility of the events from The RNLI who are responsible for their organisation.<br><br>**ACTION** Cllr Jarvis to liaise with RNLI on both the Raft Race and Sea Shanty Festival.<br><br><br>The Committee were also mindful that MCC's Chair, Cllr Will Thomas had suggested a more supportive role for the Raft Race with the RNLI during June's Full Council. The Committee considered that they would benefit from Cllr Thomas' input on the events.<br><br>**RESOLVED** Cllr Thomas to be invited a future Committee Meeting on issues connected to Raft Race. |
| CT2606-13 | **To have netting 'suspended' (star netting) from premises at the lower end of Newton Road to celebrate events such as Christmas.**<br><br>MCC's Chair, Cllr Will Thomas had suggested at June's Full Council Meeting that netting could be 'suspended' from premises at the lower end of Newton Road to celebrate events such as Christmas.<br>The Committee fully supported this idea, which would enhance events in Mumbles.<br><br>**RECOMMENDED** That MCC provide netting which could be 'suspended' from premises at the lower end of Newton Road to celebrate future events. |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| CT2606-14 | **Christmas Event 2026 (including lighting)**<br><br>The CO had circulated a detailed report on suggested proposals for Christmas 2026. In addition, The CO had distributed a calander of events on a month by month basis for the whole year. The CO highlighted key aspects of the report which included:-<br>• Continuing with successful aspects from previous years, notably the land train which has been very popular and oversubscribed. This would again take place between 4.30pm and 6.30pm and not impact on other events such as Mumbles Lights being switched on.<br>• Lantern Parade for schoolchildren along Mumbles Promenade.<br>• Working with Mumbles Traders for a best dressed window competition.<br>• An 'advent' competition for shoppers visiting twelve designated shops in Mumbles<br>• Films being shown at community Centres within MCC<br>• A Grotto being created within Ostreme Centre with stalls being added to create a festive event.<br><br>**RESOLVED:** to accept the recommendations contained within the attached report.<br><br>**RESOLVED:** to hold the Christmas Grotto Event at The Ostreme on Saturday 19th December 2026 |
| CT2606-15 | **Sea Shanty Festival 2027**<br><br>This agenda item was discussed together with the RNLI Raft Race agenda item (CT2606-12 refers) |
| CT2606-16 | **Exclusion of Press and Public**<br>Following the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded from the following item of business due to the confidential nature of the business to be transacted.<br><br>**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting.<br><br>The recording of the meeting was stopped at 2.37pm |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| | |
| CT2606-17 | **Future Events**<br><br>A number of potential events for 2026 and 2027 were discussed by Councillors<br><br>**RESOLVED** To approve expenditure in relation to the WellFest Event in September 2026, the budget of which had previously been approved by Full Council |

**The meeting ended at 3.00pm.**

**Next Meeting**

**Wednesday 22nd July 2026 at 6.30pm**

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu

## Cynhaliwyd ddydd Mercher, 24 Mehefin 2026 am 2pm yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Rob Marshall (cadeirydd), Richard Jarvis, Martin O'Neill a David Lewis.

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Prif Swyddog, Cat Hiles – Swyddog Marchnata, Digwyddiadau a Golygyddol ac Ian Hughes - Swyddog Cymorth Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| CT2606-01 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br>Y Cynghorwyr Angela O'Connor a Tim Zhou |
| CT2606-02 | **Datganiadau o fuddiant**<br>Fel aelod o Glwb Hwylio'r Mwmbwls, gwnaeth y Cynghorydd Jarvis ddatganiad o fuddiant personol mewn perthynas ag eitemau 12 a 15 ar yr agenda. |
| CT2606-03 | **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**<br>Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Mai 2026 fel cofnod cywir.<br><br>**PENDERFYNWYD**: cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mai 2026 fel cofnod cywir. |
| CT2606-04 | **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol.**<br>Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu sy'n weddill a oedd wedi'u dosbarthu ganddo i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu sydd heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu |
| CT2606-05 | **Ethol is-gadeirydd y pwyllgor** |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD:** gohirio'r penodiad tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf |
| CT2606-06 | **Argymhellion ar gyfer aelodau cyfetholedig y pwyllgor**<br><br>Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, y dylid ystyried aelodau cyfetholedig blaenorol.<br><br>**PENDERFYNWYD** yn anffodus nad yw Liz Fuller ar gael i barhau fel aelod cyfetholedig. Michael Eames a Pip Reason i gadarnhau eu parodrwydd i fod yn aelodau cyfetholedig<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn ysgrifennu at Mike Eames a Pip Reason i sefydlu a ydynt yn dymuno parhau fel aelodau cyfetholedig ar y pwyllgor. |
| CT2606-07 | **Gŵyl Werin**<br>Rhoddodd y Cynghorydd Jarvis yr wybodaeth ddiweddaraf am yr Ŵyl Werin arfaethedig a fydd yn digwydd yn ystod penwythnos cyntaf mis Hydref 2026. Mae lleoliadau a bandiau wedi'u harchebu ar gyfer y tridiau (rhwng dydd Gwener 2 Hydref a dydd Sul 4 Hydref).<br>Ymhlith yr ystyriaethau eraill a drafodwyd roedd yr angen am drwydded i werthu alcohol yng Nghanolfan Ostreme a defnyddio bar symudol yr Hyb ar yr un diwrnod (dydd Sadwrn, 3 Hydref). Cynigiwyd codi ffi mynediad o £5 i gael mynediad i Ganolfan Ostreme.<br>Yn ogystal, trafodwyd cynnal digwyddiad tebyg yn 2027 gyda'r opsiwn o ddarparu ar gyfer gwyliau eraill neu weithio gyda nhw. Roedd y cynghorwyr o'r farn y gellid mabwysiadu'r templed a ddefnyddir ar gyfer rhedeg a threfnu Gŵyl y Mwmbwls, yn rhannol ar gyfer yr Ŵyl Werin.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Y Cynghorydd Jarvis i weithio gydag eraill gan gynnwys Cat Hiles ar hyrwyddo a threfnu'r digwyddiad. |
| CT2606-08 | **Diweddariad ar dwristiaeth yn y Mwmbwls**<br><br>**PENDERFYNWYD:** Yn absenoldeb y Cynghorydd O'Connor, gohirio'r diweddariad tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf |
| CT2606-09 | **Ymwybyddiaeth o ganser y fron**<br><br>**PENDERFYNWYD:** Yn absenoldeb y Cynghorydd O'Connor, gohirio'r diweddariad tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| | |
| CT2606-10 | **Digwyddiad Tegan a Thost**<br><br>**PENDERFYNWYD:** Yn absenoldeb y Cynghorydd O'Connor, gohirio'r diweddariad tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf |
| CT2606-11 | **Darparu 'arwyddion' croesawgar, a cherddoriaeth yn y Mwmbwls mewn digwyddiadau yn y dyfodol**<br><br>Awgrymodd cadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls, y Cynghorydd Will Thomas, yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Mehefin y dylid mabwysiadu arwyddion 'croeso' a cherddoriaeth groesawgar o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls pan fydd digwyddiadau fel hanner marathon neu gystadleuaeth Ironman yn digwydd.<br>Cefnogodd y pwyllgor y syniad hwn yn llwyr, a fyddai'n tynnu sylw ymhellach at ardal y Mwmbwls i ymwelwyr.<br><br>**ARGYMHELLWYD** Bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn darparu arwyddion/cerddoriaeth groesawgar mewn digwyddiadau addas sy'n cymryd rhan yn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls. |
| CT2606-12 | **Cefnogi Ras Rafftiau Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) ar sail 'barhaol'.**<br><br>Amlinellodd y Cynghorydd Jarvis bwysigrwydd cefnogi'r digwyddiad hwn a chynnwys Gŵyl Caneuon Môr arfaethedig (gweler CT2606-15) yn yr eitem agenda hon. Ychwanegodd y Cynghorydd Jarvis opsiynau am gerddorion pen stryd i'r digwyddiadau a defnyddio Clwb Hwylio'r Mwmbwls (yr oedd eisoes wedi gwneud datganiad o ddiddordeb yn rhinwedd y ffaith ei fod yn aelod).<br>Roedd holl aelodau'r pwyllgor yn frwdfrydig am y Ras Rafftiau a Gŵyl Caneuon Môr, ac er bod awgrymiadau fel stondin fwyd wedi'u hawgrymu, roedd y pwyllgor yn ofalus i beidio â chymryd cyfrifoldeb am y digwyddiadau gan yr RNLI sy'n gyfrifol am eu trefnu.<br><br>**CAM GWEITHREDU** Y Cynghorydd Jarvis i gysylltu â'r RNLI am y Ras Rafftiau a Gŵyl Caneuon Môr.<br><br><br>Roedd y pwyllgor hefyd yn ymwybodol bod Cadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls, y Cynghorydd Will Thomas, wedi awgrymu rôl fwy cefnogol i Ras Rafftiau yr RNLI yn ystod |

| | |
|---|---|
| | cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Mehefin. Ystyriodd y pwyllgor y byddent yn elwa o fewnbwn y Cynghorydd Thomas ar y digwyddiadau.<br><br>**PENDERFYNWYD** gwahodd y Cynghorydd Thomas i gyfarfod pwyllgor yn y dyfodol i drafod materion sy'n gysylltiedig â Ras Rafftiau. |
| **CT2606-13** | **'Hongian' rhwydi (rhwydi seren) o safleoedd ym mhen isaf Heol Newton i ddathlu digwyddiadau fel y Nadolig.**<br><br>Awgrymodd Cadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls, y Cynghorydd Will Thomas, yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Mehefin y gellid 'hongian' rhwydi o safleoedd ym mhen isaf Heol Newton i ddathlu digwyddiadau fel y Nadolig.<br>Cefnogodd y pwyllgor y syniad hwn yn llwyr, a fyddai'n gwella digwyddiadau yn y Mwmbwls.<br><br>**ARGYMHELLWYD** Bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn darparu rhwydi y gellid eu 'hongian' o safleoedd ym mhen isaf Heol Newton i ddathlu digwyddiadau yn y dyfodol. |
| **CT2606-14** | **Digwyddiad Nadolig 2026 (gan gynnwys goleuadau)**<br><br>Roedd y Prif Swyddog wedi dosbarthu adroddiad manwl ar gynigion awgrymedig ar gyfer Nadolig 2026. Yn ogystal, roedd y Prif Swyddog wedi dosbarthu calendr o ddigwyddiadau fesul mis ar gyfer y flwyddyn gyfan. Tynnodd y Prif Swyddog sylw at agweddau allweddol yr adroddiad a oedd yn cynnwys fel a ganlyn:<br>• Parhau ag agweddau llwyddiannus o flynyddoedd blaenorol, yn enwedig y trên bach sydd wedi bod yn boblogaidd iawn a'r galw'n uwch na'r lleoedd a'r amser ar gael. Byddai hyn yn digwydd eto rhwng 4.30pm a 6.30pm ac ni fyddai'n effeithio ar ddigwyddiadau eraill fel troi Goleuadau'r Mwmbwls ymlaen.<br>• Parêd Llusernau i blant ysgol ar hyd Promenâd y Mwmbwls.<br>• Gweithio gyda Masnachwyr y Mwmbwls ar gyfer cystadleuaeth addurno ffenestri siopau.<br>• Cystadleuaeth 'adfent' i siopwyr ymweld â deuddeg siop ddynodedig yn y Mwmbwls<br>• Dangos ffilmiau mewn canolfannau cymunedol o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls<br>• Creu Groto yng Nghanolfan Ostreme gyda stondinau'n cael eu hychwanegu i greu digwyddiad ar gyfer y Nadolig.<br><br>**PENDERFYNWYD:** derbyn yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad sydd ynghlwm.<br><br>**PENDERFYNWYD:** cynnal digwyddiad Groto Nadolig yn yr Ostreme ddydd Sadwrn 19 Rhagfyr 2026 |

Mumbles Community Council

| | | |
|---|---|---|
| CT2606-15 | **Gŵyl Caneuon Môr 2027**<br><br>Trafodwyd yr eitem agenda hon ynghyd ag eitem agenda Ras Rafftiau'r RNLI (cyfeiriadCT2606-12 ) | |
| CT2606-16 | **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**<br>Yn dilyn darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cynigir y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr eitem fusnes ganlynol oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.<br><br>**PENDERFYNWYD** bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.<br><br>Stopiwyd recordio'r cyfarfod am 2.37pm | |
| CT2606-17 | **Digwyddiadau yn y dyfodol**<br><br>Trafodwyd nifer o ddigwyddiadau posibl ar gyfer 2026 a 2027 gan y cynghorwyr<br><br>**PENDERFYNWYD** cymeradwyo gwariant mewn perthynas â digwyddiad WellFest ym mis Medi 2026, y mae ei gyllideb wedi'i chymeradwyo'n flaenorol gan y Cyngor Llawn | |

**Daeth y cyfarfod i ben am 3pm**

**Cyfarfod Nesaf Dydd Mercher 22 Gorffennaf 2026 am 6.30pm**